# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 23-08)

**Dyddiad: 21 Hydref 2008**
**Amser: 8.45am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 21 Hydref 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Eleanor Burnham AC ac Alun Davies AC. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dr Dai Lloyd AC, Mark Isherwood AC a Joyce Watson AC. Dirprwyodd Chris Franks ar ran Dr Dai Lloyd AC.

### Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC206 - Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 3 Hydref 2008. Fe'i gosodwyd ar 7 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 28 Hydref 2008

SLC207 - Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Hydref 2008. Fe'u gosodwyd ar 8 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 30 Hydref 2008

SLC208 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hereditamentau Cyfathrebu) (Prisio, Newid Rhestri ac Apelau a Diwrnod Perthnasol) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Hydref 2008. Fe'u gosodwyd ar 8 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 31 Hydref 2008

SLC209 - Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Hydref 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2008.

SLC210 - Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Hydref 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2008.

SLC211 - Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 8 Hydref 2008. Fe'i gosodwyd ar 10 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2008

### Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2

### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC189 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2008SLC198 - Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Annibynnol Iechyd Meddwl) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Awst 2008. Fe'u gosodwyd ar 8 Awst 2008. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1.

Ceir Adroddiad y pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr offerynnau statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn

Atodiadau 1 i'r Adroddiad hwn**.**

### Eitemau eraill o fusnes

Oherwydd absenoldeb y Cadeirydd, Dr Dai Lloyd AC, etholodd y pwyllgor Alun Davies AC i weithredu fel Cadeirydd Dros Dro.

**Alun Davies AC**
**Cadeirydd Dros Dro, y Pwyllgor Is-deddfwriaeth**
**21 Hydref 2008**

## Atodiad 1

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-23-08)**

**SLC205**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Diwygio) (Cymru) 2008

- yn diwygio Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007") i greu trefniadau trosiannol mewn perthynas â gorfodi - gofynion labelu ar gyfer fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol, gofynion o ran siâp, ymddangosiad a phecynnu fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol ac yn gwneud diwygiadau ôl-ddilynol, perthynol. Mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol i roi ei effaith i ddyfarniad yr Uchel Lys a draddodwyd ar 20 Chwefror 2008 yn rhoi datganiad nad oedd Rheoliadau 2007 yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb y Comisiwn 2006/141/EC i'r graddau bod Rheoliadau 2007 yn gwahardd masnach o 11 Ionawr 2008 yn hytrach nag o 31 Rhagfyr 2009, mewn fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol sydd â'u labelu yn bodloni gofynion labelu Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol 1995 ond nad ydynt yn bodloni gofynion Rheoliadau 2007

### Gweithdrefn: Negyddol

Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2 (vi) (methiant i gydymffurfio â gofynion statudol). Mae adran 80(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod rhwymedigaeth gymunedol y DU hefyd yn rhwymedigaeth Gweinidogion Cymru i'r graddau y gallant hwy gydymffurfio ag o wrth iddynt arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru yw gwneud is-ddeddfwriaeth. Mae Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gael ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau. Rhoddwyd gwybod i'r Cynghorwyr Cyfreithiol na chynhaliwyd unrhyw ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn (er y cynhaliwyd cyfnod ymgynghori llawn o 12 wythnos mewn perthynas â Rheoliadau 2007) gan nad ydynt yn gosod unrhyw ofynion cyfreithiol newydd. Deallir y bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn rhoi gwybod i bawb sydd â diddordeb pan gaiff y Rheoliadau eu gwneud. Gan y bwriedir i'r Rheoliadau roi effaith i ddyfarniad yr Uchel Lys ystyrir y dylid cael ymgynghoriad yn unol ag Erthygl 9 o Reoliadau (EC) Rhif 178/2002.

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi nodi'r pwynt adrodd. Fe wnaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd gysylltu â rhanddeiliaid ac fe'u gwahoddwyd i wneud sylwadau ar y Rheoliadau drafft gan roi iddynt bedair wythnos i wneud hynny. Ni wnaed ymgynghoriad llawn 12 wythnos oherwydd bod y Llywodraeth yn rhwym o wneud y Rheoliadau yn unol â 'r gorchymyn llys. Petai wedi cael ymatebion i ymgynghoriad, ni fyddai'r Llywodraeth wedi bod â disgresiwn i ddiwygio'r Rheoliadau i gymryd ystyriaeth o'r ymatebion hynny.

**Alun Davies AC**
**Cadeirydd Dros Dro, Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**21 Hydref 2008**